# CYNGOR CYMUNED LLANDDANIEL FAB

## Cyfarfod y Cyngor: Dydd Llun, 19 Chwefror 2024, Yr Efail, 18:45-20:00

### 1. Croeso ac Ymddiheuriadau

**Presennol:** Margaret Clarke (Cadair) Dawn Doran-Jones, Guto Williams
**Ymddiheuriadau**: Cyngh. Dafydd Roberts, Mark Owen, Joanna Robertson, Rob Sargent

### 2. Cofnodion

Guto Williams yn derbyn cofnodion mis Ionawr, Dawn Doran-Jones yn eilio.

### 3. Materion yn Codi

### 4. Datgan diddordeb

### 5. Cynllunio

Ymgynghoriad Cynllunio HHP/2024/23 - Cais llawn ar gyfer cael gwared ar gynwysyddion presennol a chodi gweithdy garej newydd yn 2 Graianbwll Bach, Llanddaniel.

Neb yn gwrthwynebu, ond gan nad oes mesuriadau ar y cynlluniau, mae yn annodd gweld beth fydd maint y datblygiad. Y Cyngor o'r farn y bydd cael y mesuriadau yn ddefnyddiol cyn anfon ymateb.

Ymgynghoriad Cynllunio FPL/2023/370 - Cais llawn ar gyfer cadw a chwblhau y storfa amaethyddol ar dir ger Parc Deiniol Sant, Llanddaniel. Dim gwrthwynebiad.

### 6. Materion Ariannol

| | | |
|---|---|---|
| Incwm: | | |
| Grant claddu plant | | 1,000.00 |
| | | |
| Gwariant: | | |
| Ad-daliad costau cyfrifiadurol | 608.05 | |
| Bagiau gwastraff cŵn | 76.03 | |
| Misol: | | |
| Costau cyflogwr CThEM | 104.21 | |
| Cyflog y Clerc | 415.88 | |
| Costau banc | 5.00 | |
| Costau cyfieithu | 101.25 | |

*Caniatâd i dalu anfoneb gan y Cyngor Sir am osod golau stryd newydd yn ddiweddar, yn y swm £1,965.64.*

### 7. Cyfraniadau Elusennol

Ceisiadau gan Hosbis Dewi Sant, Radio Ysbyty Gwynedd, Theatr Bara Caws, Cronfa Cyfle i Bawb, Dawns i Bawb, Tempo – Gwirfoddolwyr, Ambiwlans Awyr Cymru, Marie Curie 'Great Daffodil Appeal,' ac Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru, Maldwyn. Rhestr llynedd wedi ei gylchredeg, gwneud yr un cyfraniadau eto, mwy neu lai, ac ychwanegu tri newydd.

**8. Llythyrau i'w trafod**

**Coedwig Genedlaethol i Gymru - Grantiau**

Cylch cyllid newydd ar gyfer cynllun yn cynnig grantiau o rhwng £10k a £40k ar gyfer creu coetiroedd bach newydd a fydd yn cael eu rheoli mewn cydweithrediad â'r gymuned leol. Gallai hyn fod yn gyfle perffaith i gael gwared ar y prysgwydd (Coed y Gôf) a chreu man tawel a diogel, sy'n gyfoethog mewn bioamrywiaeth, yn darparu cynefinoedd newydd ac yn annog gwahanol rywogaethau o anifeiliaid ac yn galluogi pobl i gael mynediad i fan gwyrdd hygyrch llawn natur. Er hyn, nodwyd mai'r Cyngor Sir sy'n perchnogi'r tir yma a buasai rhaid cael eu caniatâd gan gofio nad yw'r broblem draenio wedi ei datrus. Cytunodd y Cyngor Cymuned i drafod hyn yn y cyfarfod nesaf.

**BCUHB: Sgyrsiau Iechyd Lleol**

Mae'r Cyngor Cymuned wedi derbyn hysbysiad o nifer o gyfarfodydd ymgynghori cyhoeddus a chais i Gynghorau ddosbarthu gwybodaeth ymysg eu cymunedau am y cyfarfodydd lle bydd cyfle i gyfarthrebu gyda swyddogion ac Aelodau Bwrdd Betsi Cadwaladr ynglŷn ag unrhyw bryderon. Mae'r cyfarfod nesaf Mawrth 11 yng Nghanolfan Cymunedol Coed Mawr, Bangor a mae rhai o'r aelodau yn bwriadu mynychu. Cafwyd trafodaeth ynglyn â'r ffordd orau i godi ymwybyddiaeth am hyn yn cynnwys ar ein safle Facebook, y wefan Llanddaniel.org. ac o bosib, y platfform 'Caru Llanddaniel.'

Cafwyd trafodaeth hefyd ar rinweddau gwefan ar y cyd hefo'r ysgol. Penderfynodd y panel drafod mwy ar hyn y tro nesaf pan fydd mwy o aelodau yn bresennol.

**9. Lôn Las Môn**

Ar ôl y drafodaeth yn y cyfarfod diwethaf, ac yn dilyn adolygiad o'r ohebiaeth gylchredwyd yn dilyn y cyfarfod, mae'r Cyngor Cymuned yn mynd i roi ei gefnogaeth yn llawn i'r fenter a bydd y Clerc yn drafftio llythyr i gadarnhau y dymuniad i symud y prosiect yn ei flaen.

**10. Scottish Power Energy Networks (SPEN)**

Adroddodd aelod ei bod wedi cael gwahoddiad byr rybydd i gyfarfod hefo aelodau o staff yr Adran Priffyrdd a chynrychiolwr SP Energy ychydig ddyddiau yn ôl i drafod camau gwaith arfaethedig yn yr ardal. Mae y gwaith yn sicr yn mynd i greu anhwylustod i bobl, ond mae hwn yn waith angenrheidiol ac mae SP Energy wedi trefnu bod gwaith o gwmpas yr ysgol yn mynd i gael ei wneud o gwmpas y Pasg am resymau diogelwch.

**11. Dosbarthwyr bagiau gwastraff cŵn**

Mae'r Cyngor Cymuned wedi prynu cyflenwad newydd o fagiau gwastraff cŵn ond mae pryder bod y dobarthwyr yn dod yn wag yn gyflym iawn oherwydd camddefnydd a phyrder o hyd am wastraff cŵn ar y ffyrdd a'r llwybrau, o bosib o ganlyniad i hyn.

Ar hyn o bryd, does dim modd gweld un o'r dosbarthwyr, yr un sydd wedi ei leoli yn Plas Hen, oherwydd bod y gwrych wedi gordyfu o'i amgylch. Hefyd, does dim modd gweld y bin baw ci sydd ar y gilfan, Myfyrian, oherwydd gordyfiant. Bydd yr aelodau yn chwilio am leoliadau gwell.

**12. Cae Chwarae a Coed y Gôf, Diweddariad**

Mae tyrchod daear yn broblem yn y maes chwarae ond mae'n anodd delio â'r tyrchod daear yn ddiogel oherwydd presenoldeb plant.

Mae'r Cyngor Cymuned eisioes wedi penderfynnu archebu bwrdd a meinciau, ac mae lle i osod dau fwrdd. Tydi hyn ddim wedi digwydd eto oherwydd y glybaniaeth ond

mae'r gwaith tir wedi'i gwblhau rwan ac mae'r aelodau yn awyddus i wneud hyn cyn diwedd y flwyddyn ariannol. Bydd un o'r aelodau yn edrych ar gatalogau ac yn chwilio am y prisiau gorau. Bydd angen angori'r dodrefn er diogelwch.

**13. Diogelwch Ffyrdd**
Nid oes cyfarfod o'r Pwyllgor Diogelwch Ffyrdd wedi'i gynnal yn ddiweddar oherwydd mae'r Cyngor Cymuned yn dal i aros i'r Cyngor Sir weithredu mewn perthynas â'r llinellau melyn dwbl ond mae ganddynt flaenoriaethau eraill.

Bwriedir galw cyfarfod o'r Pwyllgor Diogelwch Ffyrdd yn fuan;
mae llawer o faterion i drafod yn ogystal, yn cynnwys diffyg gwasanaeth bws cyhoeddus i bobl leol. Mae hyn yn cael effaith negyddol. Mae pobl, yn enwedig yr henoed, yn teimlo'n ynysig. Mae Gwynedd yn rhedeg 'bws hyblyg' lle does dim amserlen ond gall pobl ffonio i ofyn am wasanaeth. Byddai'n ddefnyddiol archwilio'r opsiwn hwn erbyn y cyfarfod nesaf.
Soniwyd hefyd y byddai arwyddion solar, y rhai sy'n fflachio i ddangos cyflymder, ella yn werth eu hystyried fel ateb i'r broblem goryrru.
Mae problem o ordyfiant ar ochr y ffordd, y palmant ar y chwith ar y lôn am stesion Gaerwen, o Bryn Gaer. Hyn yn beryg, ac angen sylw.

**14. Adroddiad o unrhyw gyfarfodydd**
'Roedd tri aelod o'r Cyngor Cymuned wedi mynychu y Gweithdy i Rhanddeiliaid Gaerwen WelTAG Lite ar-lein. Mae Teithiau Llesol Môn, Gaerwen wedi cael eu penodi i sicrhau llwybr saff i gerddwyr o Gaerwen i sgwar Llanddaniel, neu bellach, o bosib.

**15. Adroddiad gan y Cynghorydd Sir**
Dim adroddiad y tro hwn.

Signed : M. L. Slade          Date : 18.3.24.

# LLANDDANIEL FAB COMMUNITY COUNCIL

## Council Meeting: Monday, 19 February 2024, Yr Efail, 18:45-20:00

### 1. Welcome and Apologies

**Present:** Margaret Clarke (Chair) Dawn Doran-Jones, Guto Williams
**Apologies**: Cllr. Dafydd Roberts, Mark Owen, Joanna Robertson, Rob Sargent

### 2. Minutes

Minutes of January meeting confirmed correct by Guto Williams, seconded by Dawn Doran-Jones.

### 3. Matters arising

### 4. Declarations of interest

### 5. Planning

Planning Consultation HHP/2024/23 - Full application for the removal of existing containers and the erection of a new garage workshop at 2 Graianbwll Bach, Llanddaniel.

No objections, but as the plans do not include measurements, it is difficult to see the size of the proposed development. The Council is of the opinion that obtaining measurements would be useful before sending a response.

Planning Consultation FPL/2023/370 - Full application for the retention and completion of the agricultural store on land near Parc Deiniol Sant, Llanddaniel. No objections.

### 6. Financial Matters

| | | |
|---|---|---|
| Income | | |
| Child Burial Grant | | 1,000.00 |
| | | |
| Expenditure: | | |
| Reimbursement – IT equipment | 608.05 | |
| Dog waste bags | 76.03 | |
| Monthly: | | |
| HMRC - PAYE deductions | 104.21 | |
| Clerk's wages | 415.88 | |
| Bank charges | 5.00 | |
| Translation costs | 101.25 | |

*Authorisation to pay via BACS, County Council invoice for new street lighting in the sum of £1,965.64.*

### 7. Charitable donations

Requests from St. David's Hospice, Radio Ysybyty Gwynedd, Theatr Bara Caws, Cyfle i Bawb Fund, Dawns i Bawb, Tempo – Volunteers, Wales Air Ambulance, Marie Curie Great Daffodil Appeal, and the Urdd National Eisteddfod, Montgomeryshire. Last year's list also circulated, agreed to make the same donations as last year, more or less, plus three new, in addition.

## 8. Letters to discuss

### Grants - National Forest for Wales

A new round of funding for a scheme of grants of between £10k and £40k for creating new small woodlands managed in collaboration with the local community. This will be a perfect opportunity to get rid of the scrub (Coed y Gôf), and create a tranquil and safe space, rich in biodiversity, providing new habitats and encouraging different species of animals and enabling people to access a nature-rich accessible green space. However, it was noted that the County Council owns this land and their approval would be needed, bearing in mind that the drainage problem has not been resolved. The Community Council agreed to discuss this further at the next meeting.

### BCUHB: Local Health Conversations

The Community Council has received notice of public consultation meetings and an appeal to Councils to make people aware of these meetings where they will be given an opportunity to communicate with senior members of management and BCUHB members about any concerns. The next meeting is on 11 March in the Community Centre, Coed Mawr, Bangor. Some members of the Community Council are planning to attend.

The Community Council discussed the best way to raise awareness about the consultation meetings, including on the Facebook page, the Llanddaniel.org website and possibly, the 'Caru Llanddaniel' platform. There was also a discussion on the merits of running a website jointly with the school. The panel resolved to have a further discussion on this topic in the next meeting with more members present.

## 9. Lôn Las Môn

Following the discussion at the last meeting, and review of the correspondence circulated following the meeting, the Community Council is going to give it's full support to the campaign and the Clerk will draft a letter to confirm the Community Council's wish to see the project moved forward.

## 10. Scottish Power Energy Networks (SPEN)

One of the members reported that she had been invited, at short notice, to a meeting with Highways Department staff and a representative of SP Energy a few days ago to discuss proposed work phases in the area. Certainly, the works will create some inconvenience, but it is necessary work and SP Energy has arranged for any works near the school to be undertaken around the Easter break for reasons of safety.

## 11. Dog waste bag dispensers

The Community Council has purchased a new supply of dog waste bags but there is concern that the dispensers are emptied in no time at all due to misuse and concern still about dog fouling on the roads and paths, possibly as a result. At present, it is not possible to see one of the dispensers, located at Plas Hen, due to the overgrown hedge. Also, one of the disposal bins on the layby, Myfyrian, cannot be seen due to overgrowth. The members will look for better locations.

## 12. Playground and Coed y Gôf, - update

Moles are an issue in the playground. There is difficulty in dealing with the moles safely because of the presence of children.

The Community Council has already decided to purchase a table and benches for the playground, and there is space for two tables. This has not happened yet because it is too wet but the groundworks has now been completed and the members are keen to do this before the end of the financial year. One of the members will look at the

catalogues and find the best price. The furniture will need to be anchored for safety reasons.

**13. Road Safety**

There has been no meeting of the Road Safety Committee of late as the Community Council is still waiting for the County Council to take action in relation to double yellow lines, but the County Council has other priorities. It is intended to call a meeting soon; many issues need to be discussed in addition, including the lack of a public bus service for local people. This has a negative effect. People, especially the elderly, feel isolated. Gwynedd runs a 'flexi bus' with no timetable, people can phone to request the service. It would be useful to research this option by the next meeting.
Members mentioned that solar signs, the type that flash to indicate vehicle speeds, might be worth considering as a solution to the speeding problem.
There is a problem of overgrowth on the roadside, the left hand side pavement on the road towards Gaerwen station, from Bryn Gaer. This is dangerous and needs attention.

**14. Reports of any meetings**

Three members of the Community Council attended the online Gaerwen WelTAG Lite Stakeholder Workshop. Anglesey Active Travel, Gaerwen has been appointed to ensure safe paths for pedestrians from Gaerwen to Llanddaniel square, or possibly further.

**15. County Councillor's Report**

None this time.

Signed : [signature]

Date : 18.3.24